Papur y Bwrdd

7fed Mai 2015

Teitl y papur:	**Rheoli Adnoddau Naturiol (Partneriaeth) - Ariannu Prosiectau - 2015/16**
Cyfeirnod y papur:	**CNC B B 29.15**
Paratowyd y papur gan:	Rhian Jardine, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy; Emyr Thomas, Arweinydd y Tîm Cyllid Strategol; Clare Southard, Swyddog Cyllid Strategol; Helga Dixon, Swyddog Cyllid Strategol

Diben y papur:	Penderfynu a chytuno ar y modd y dylai cyllid partneriaeth ar gyfer 2016/17 a 2017/18 gael ei dargedu
Argymhelliad:	Cytuno ar y dull gweithredu ar gyfer y 2 flynedd nesaf o gyllid partneriaeth, ac yn fwy penodol cytuno ar y cwmpas thematig a'r meini prawf fel y cânt eu nodi ym mharagraffau 11-14 y papur
A oes angen penderfyniad?	Oes

Effaith: Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr amgylchedd**: Caiff Cyllid Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddefnyddio gyda'r nod o sicrhau canlyniadau amgylcheddol a dulliau gweithredu amgylcheddol fel y nodir yn ein cynllun corfforaethol, ynghyd â hybu'r gwaith o fabwysiadu systemau rheoli amgylcheddol. **Effaith ar yr economi**: Bydd adnoddau ar gyfer meithrin ymyriadau sy'n creu manteision economaidd yn cael eu hymgorffori yng Nghyllid Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, mae Cyllid Partneriaeth yn denu cyllid cyfatebol sy'n cynyddu lefelau cyflogaeth uniongyrchol, yn arwain at brynu mwy o nwyddau a gwasanaethau, ac yn cynyddu gwaith cyfalaf yng

	Nghymru. **Effaith ar y gymuned**: Gellir defnyddio Cyllid Partneriaeth i wneud gwaith ymgysylltu â'r gymuned ynghylch materion amgylcheddol. Gall darparu cymorth ar ffurf cyllid i sefydliadau eraill fod yn ffordd effeithiol o sicrhau ymyriadau sy'n creu manteision cymdeithasol i gymunedau difreintiedig. **Effaith ar wybodaeth**: Bydd Cyllid Partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gael gwasanaethau gwybodaeth megis casglu a defnyddio data a gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn bwysig i weithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu ag eraill.

Materion

1. Ym mis Ebrill 2014 cytunodd y Bwrdd ar ddull newydd o ymdrin â Chyllid Partneriaeth, gan roi cyfanswm o hyd at £4.2 miliwn y flwyddyn i'r naill ochr am y tair blwyddyn ariannol nesaf (gan leihau ar sail *pro rata* yn unol â gostyngiadau yn ein cymorth grant gan Lywodraeth Cymru).

2. Mae ceisiadau llwyddiannus y flwyddyn gyntaf – ceisiadau cystadleuol a cheisiadau ynghylch partneriaethau cydweithio – wedi cael eu hasesu ac mae'r ymgeiswyr wedi cael gwybod am y canlyniadau. Mae penderfyniad terfynol ynghylch y symiau'n cael ei wneud ar hyn o bryd, ac mae'r llythyrau cynnig wedi'u hanfon allan.

3. Mae'r swm cyfan wedi'i neilltuo ar gyfer 2015/2016 ac mae nifer sylweddol o brosiectau llwyddiannus yn cael cynnig cyllid ar gyfer y cyfnod llawn o dair blynedd. Mae'r papur hwn yn cynnig dull o ddyrannu'r cyllid sy'n weddill a fydd ar gael ym Mlwyddyn 2 a 3 (yr amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd yn £349,000 ym Mlwyddyn 2 ac yn £525,000 ym Mlwyddyn 3). Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Bwrdd y byddai'r Grŵp Cymunedau yn datblygu'r dull gweithredu ar gyfer dyrannu'r cyllid ym Mlwyddyn 2 a 3, ac y byddai hynny'n cael ei adrodd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mai 2015. Cyfarfu'r Grŵp Cymunedau ddydd Gwener 17 Ebrill, ac mae'r papur hwn yn adlewyrchu trafodaethau'r grŵp.

4. Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch pa mor briodol yw'r term 'Cyllid Partneriaeth', fodd bynnag ar ôl trafod yn y Grŵp Cymunedau cytunwyd y gallai newid y term yn awr ddrysu partneriaid a chydweithwyr mewnol, ac y byddai'n fwy priodol newid y term ar ddechrau'r cylch cyllido newydd, yn 2018, yn hytrach nag yn awr, hanner ffordd drwy'r cyfnod. Felly, argymhellir cadw'r term 'Cyllid Partneriaeth'.

5. Nodwyd, er bod Rheoli Adnoddau Naturiol yn rhan allweddol o bopeth yr ydym yn ei gyflawni, na all hynny fod yn sail i gyllid partneriaeth ar hyn o bryd gan fod y cynlluniau peilot yn dal i gael eu datblygu. Fodd bynnag, cafwyd awgrym y dylai unrhyw gylchoedd cyllido yn y dyfodol gael eu brandio fel 'Rheoli Adnoddau Naturiol – Cyllid ar gyfer... pobl/yr amgylchedd/cymunedau/bioamrywiaeth ac ati'. Gallwn ddod â'r awgrym hwn yn ôl i sylw'r Bwrdd ar yr adeg briodol.

Cefndir

6. Y gobaith oedd y byddai ein cylch cyntaf o gyllid partneriaeth yn gallu denu ymgeiswyr newydd a fyddai'n cyflawni agweddau ar ein cylch gwaith ehangach. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr berthynas â'r cyrff a oedd yn rhagflaenu Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y cylch cyntaf mae dadansoddiad

cychwynnol o'r grantiau a roddwyd (heb gynnwys Partneriaid Cydweithio yr Awdurdodau Lleol a ffigurau y mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Gyllid graffu arnynt ymhellach yn awgrymu'r canlynol:

- bydd dros £6 miliwn yn cael ei ddyrannu dros gyfnod o 3 blynedd ar gyfer prosiectau cystadleuol
- bydd 88 o bartneriaid
- ar gyfartaledd, bydd gwerth y grant yn £68,600
- dros gyfnod o 3 blynedd y grant lleiaf gan Cyfoeth Naturiol Cymru fydd £10,000, a'r grant mwyaf gan Cyfoeth Naturiol Cymru fydd £240,000.

7. Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru derfyn uchaf o 7% ar orbenion er mwyn helpu i ddyrannu cyllid yn fwy cyfartal yn ystod y cylch cyntaf o geisiadau. Roedd yn pryderu bod rhai sefydliadau'n cael cyfran anghymesur o gyllid oherwydd iddynt fethu â gwahaniaethu rhwng y gorbenion ar lefel prosiect a'r gorbenion ar lefel y sefydliad. Wrth gynnig cyfleoedd cystadleuol, mae'n anochel bod rhai sefydliadau'n gallu cynnig gwell gwerth am arian nag eraill. Mae'n anochel y bydd y sawl sydd â gorbenion uchel neu ormodol dan anfantais o'u cymharu â'r sawl sy'n rheoli eu gorbenion yn gadarn. Mae'n ddigon priodol gwobrwyo effeithlonrwydd mewn achosion o'r fath.

8. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i adennill costau llawn yn glir. Yn nogfen Llywodraeth Cymru o'r enw *Cynllun y Trydydd Sector* (Ionawr 2014) bu'r Llywodraeth yn ailystyried y modd y mae'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol ac yn ailddatgan yr egwyddor hon. Nid Llywodraeth Cymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'n cynnig cyllid craidd, ac nid yw'n gyfrifol am gynnal bodolaeth sefydliadau fel y cyfryw. Swm cymharol fach a chyfyngedig o arian sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'w ddyrannu bob blwyddyn (£4.2 miliwn). Mae talu gorbenion uchel i rai sefydliadau yn amddifadu eraill o gyllid. Bwriad y terfyn uchaf o 7% yw bod yn fodd i ddyrannu'r cyllid mor eang ag sy'n bosibl ac mae'n unol â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan ffrydiau cyllido Ewropeaidd.

9. Mae'r ffeithiau a'r rhagdybiaethau allweddol ar gyfer cynllunio Cylch 2 fel a ganlyn:

    - Yn amodol ar gadarnhad gan y Gyfarwyddiaeth Gyllid, gallai fod £349,000 ar gael yn 2016-17 a £525,000 ar gael yn 2017-18 ar gyfer grantiau.
    - Gall prosiectau bara hyd at 2 flynedd (dechrau ym mis Ebrill 2016 a gorffen ym mis Mawrth 2018).
    - Bydd rhestr wedi'i blaenoriaethu o brosiectau'n cael ei llunio o'r ceisiadau a chaiff y cyllid ei roi wrth i'r arian ddod ar gael.
    - Bydd y cylch nesaf ar agor i sefydliadau'r Trydydd Sector yn unig.

Camau nesaf

10. Dyma'r amserlen arfaethedig, sy'n cydnabod bod y ffenestr ar gyfer cyflwyno ceisiadau y llynedd yn rhy hwyr yn y flwyddyn a bod angen i hynny ddigwydd yn gynharach.

Dyddiad	Cam gweithredu	Nodiadau
Dechrau mis Mai	Cyflwyno papur i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru	
	Parhau i drafod â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ein cynllun yn dal i gyd-fynd â chyllid Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	
Diwedd mis Mai	Y cylch cyllido'n agor i bartneriaid	Lansiad digidol
6 Mehefin	Cyflwyno gwybodaeth i'r Bwrdd Cyllid Strategol Mewnol	
Diwedd mis Gorffennaf	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau	
Mis Awst	Tîm Cyllid Partneriaeth a Chyllid yn darllen trwy'r ceisiadau yn fras i sicrhau eu bod yn gyflawn a gofyn am unrhyw wybodaeth y mae ei hangen o hyd	Paratoi ar gyfer y Paneli Asesu
Mis Medi	Cynnal y Paneli Asesu	Cynnwys staff perthnasol o'r Cyfarwyddiaethau Gweithrediadau, Cynllunio Ecosystemau a Phartneriaethau, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio/Cyllid ac Archwilio
Diwedd mis Medi/Dechrau mis Hydref	Anfon argymhellion y Paneli Asesu at y Bwrdd Strategol (a gaiff ei gadeirio gan Rhian Jardine)	

	Anfon argymhellion at Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru (a gaiff ei gadeirio gan Ceri)	
2/3 Rhagfyr	Adrodd yn ôl i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru	
Diwedd mis Rhagfyr	Anfon llythyrau at y sawl a ymgeisiodd am grant	
Mis Ionawr/Mawrth 2016	Trafod/Rhoi'r wybodaeth ar system Cronfa	
Mis Ebrill 2016	Y prosiectau'n dechrau	
Mis Mawrth 2018	Yr holl brosiectau'n gorffen	

11. Bu'r Grŵp Cymunedau yn trafod yr opsiynau ar gyfer cwmpas a meini prawf Cylch 2 Cyllid Partneriaeth 2016/17 a 2017/18. Bu i'r Grŵp gytuno y dylid mynd ati i gynnig grantiau llai gyda'r nod o leihau biwrocratiaeth ac ymgysylltu â phartneriaid eraill, er ein bod yn cydnabod ei bod hi'n anodd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni i gyrff llai o faint sicrhau cyllid cyfatebol. Cynigiwyd y dylem geisio sicrhau, os yn bosibl, bod nifer gyfartal o brosiectau gwledig a phrosiectau trefol yn cael eu hariannu, ac y dylid ariannu prosiectau enghreifftiol y gellid eu hefelychu mewn ardaloedd eraill er mwyn rhannu arfer da.

12. Dyma'r meini prawf arfaethedig ar gyfer Cylch 2:

- Bydd y 2 flynedd nesaf o gyllid partneriaeth yn canolbwyntio ar grantiau llai.
- Diben y grantiau yw ariannu prosiectau sy'n cael eu cyflawni'n uniongyrchol, naill ai er mwyn ariannu cyfranogiad cymunedol a gweithgareddau cymunedol neu er mwyn prynu offer cyfalaf.
- Bydd pob cais yn gystadleuol.
- Bydd y gyfradd ymyrryd yn 50% ar y mwyaf.
- Isafswm grant o £10,000 y flwyddyn. Uchafswm grant o £20,000 y flwyddyn.
- Ni fydd costau cyflogau'n gymwys ar gyfer taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru, ond gall cyrff gyfrif cyflogau yn gyllid cyfatebol (os caiff taflenni amser eu darparu). Ni chaiff mwy na 7% o'r costau uniongyrchol fod yn orbenion.
- Rhaid i bob darpariaeth hamdden yn yr awyr agored a gefnogir gan grantiau Cyfoeth Naturiol Cymru lynu wrth yr egwyddor o gynnig y mynediad lleiaf cyfyngedig, a chael eu datblygu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hynny'n un o amodau rhoi'r cyllid.

13. O ran cwmpas thematig y cylch hwn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwahodd cynigion sy'n ceisio defnyddio ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol i sicrhau un o'r manteision canlynol:

- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o adnoddau naturiol a gwella gofal y cyhoedd amdanynt – gan arwain at newid ymddygiad ac at ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy
- Gwella cyfiawnder cymdeithasol a gwella cydlyniant rhwng pobl a chymunedau
- Gwella iechyd a lles pobl a chymunedau a'u gwneud yn fwy gwydn
- Cynyddu'r manteision economaidd i bobl a chymunedau – lleihau lefelau tlodi.

14. Caiff pwyntiau blaenoriaethu pellach eu defnyddio'n benodol ar gyfer y prosiectau canlynol:

- Prosiectau sy'n digwydd yn rhan o'r cynlluniau peilot rheoli adnoddau naturiol (Tawe, Rhondda, Dyfi) a/neu sy'n defnyddio cysyniadau rheoli adnoddau naturiol
- Prosiectau y mae grwpiau difreintiedig yng Nghymru yn ymgysylltu â hwy ac yn cymryd rhan ynddynt
- Prosiectau sy'n darparu cyswllt â thir Cyfoeth Naturiol Cymru heb amharu ar ardaloedd gwarchodedig neu ardaloedd lle mae'r galw gan ymwelwyr eisoes yn rhy uchel
- Prosiectau sy'n galluogi cymunedau i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru (er enghraifft gallent ddefnyddio technegau naturiol i reoli llifogydd)
- Prosiectau sy'n adnabod canlyniadau cadarnhaol penodol ynghylch bioamrywiaeth
- Prosiectau sy'n mynd i'r afael â phroblemau er mwyn cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Prosiectau sy'n gynaliadwy y tu hwnt i oes y cais am grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

<u>Llywodraethu</u>

15. Gan mai swm cymharol fach yn unig sy'n weddill yn y pot Cyllid Partneriaeth mae angen i ni fod yn gymesur yn y modd yr ydym yn dewis prosiectau ac yn eu monitro.

16. Caiff y prosiectau eu dewis drwy sefydlu byrddau asesu a fydd yn cynnwys staff Cyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigwyr o bob rhan o'r sefydliad sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes gweithgarwch dan sylw. Bydd y byrddau asesu hefyd yn cadarnhau a yw'r ymgeiswyr yn gyrff â chyfansoddiad ac yn cynnal yr holl wiriadau diwydrwydd dyladwy. Caiff y prosiectau eu sgorio a'u blaenoriaethu gan y byrddau prosiect hyn. Yna, bydd bwrdd lefel uchel yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch blaenoriaethu.

17. Gan mai grantiau bach yn unig yw'r rhain (dim mwy na £20,000 y flwyddyn) bydd y penderfyniadau ynghylch risg a diwydrwydd dyladwy yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Cyllid Partneriaeth. Bydd yr holl geisiadau llwyddiannus yn cael eu cofnodi ar 'Cronfa' (ein system TG ar gyfer grantiau) gan un tîm er mwyn hwyluso'r gwaith o roi llythyrau cynnig yn gyflym ar gyfer y symiau bach hyn.

18. Caiff gwaith monitro canlyniadau ei gynnal gan Swyddogion Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o ranbarthau Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y swyddog dan sylw'n cysylltu ar y dechrau â'r corff sy'n cael grant, yn ei fonitro mewn cysylltiad â hawliadau chwarterol ac yn cynnal ymweliad archwilio terfynol.

19. Caiff adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

20. Byddwn yn trafod â Llywodraeth Cymru cyn lansio'r cylch hwn er mwyn sicrhau na chaiff cyllid ei ddyblygu, a sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Llywodraeth am gynnydd wrth i'r prosiectau gael eu dewis.

Risgiau

21. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chyllid Partneriaeth wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Goblygiadau ariannol

22. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyllideb o oddeutu £4.2 miliwn y flwyddyn ar gyfer Partneriaethau Cydweithio a Phrosiectau Cystadleuol am y 3 blynedd nesaf sy'n dechrau ym mis Ebrill 2015, a bydd y gyllideb hon yn lleihau yn unol ag unrhyw ostyngiadau yn ein cyllideb ddangosol gan Lywodraeth Cymru.

23. Gan nad yw rhai o'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu ond yn para 1 neu 2 flynedd, bydd arian yn dod yn ôl i'w ddyrannu ym Mlwyddyn 2 a 3, a dyna'r cyllid yr ydym yn dymuno ei dargedu yn awr ar gyfer y cylch nesaf o geisiadau. Mae'r papur hwn yn egluro ein dull o ddyrannu'r swm hwn sydd hyd at £500,000 yn ôl yr amcangyfrifon.

24. Bydd dull gweithredu newydd Cyllid Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dechrau ym mis Mai 2015 a'n nod yw sicrhau bod y cyfan o'r £4.2 miliwn wedi'i ddyrannu a'i neilltuo cyn mis Ebrill 2016, a sicrhau bod yr ystod o brosiectau llwyddiannus wedi'u cymeradwyo erbyn mis Rhagfyr.

Cyfathrebu

25. Mae cynllun cyfathrebu llawn yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o gynnal lansiad digidol ar gyfer y cylch hwn ddiwedd mis Mai. Y nod fydd sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynifer o randdeiliaid ag sy'n bosibl, ac yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ymgysylltu â swyddogion partneriaeth er mwyn iddynt ddeall yn iawn y broses a'r ffocws ar gyfer y cylch hwn o gyllid. Byddwn hefyd yn creu rhaglen i arddangos prosiectau llwyddiannus cylch cyllido 2015/16.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

26. Caiff materion cydraddoldeb eu hintegreiddio, fel un o'r themâu trawsbynciol yn null Cyfoeth Naturiol Cymru o ymdrin â Chyllid Partneriaeth ac mae gwaith Sgrinio ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn mynd rhagddo.

Casgliad

27. Nod y papur hwn yw cael cytundeb y Bwrdd ynghylch y modd y dylai'r arian sy'n weddill heb ei ddyrannu ar gyfer Cyllid Partneriaeth gael ei dargedu ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

Mynegai'r Atodiadau

Atodiad 1 – Risg